



Annwyl Gwsmer

## Cau Cangen Dros Dro

**Swyddfa Bost Dociau Bute  
110 Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5AD**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd y gangen uchod, yn dilyn ymddiswyddiad y Postfeistr ac am nad yw'r adeilad ar gael o'r herwydd i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost, yn cau dros dro ddydd Mercher 30 Awst 2023 am 17:00.

Mae darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol yn bwysig i ni, a byddwn yn dal i weithio'n galed i adfer gwasanaethau yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Byddem yn croesawu unrhyw geisiadau gan berchenogion siop a fyddai â diddordeb mewn rhedeg cangen yn lleol ar ein rhan. Mae'r swydd wag yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ar ein gwefan [www.runapostoffice.co.uk](http://www.runapostoffice.co.uk) a rhoddir ystyriaeth ofalus i bob cais. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un a fyddai â diddordeb, byddwch cystal a rhannu'r ddolen â nhw.

Hoffwn eich sicrhau ein bod wrthi'n ystyried sut y gallwn adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig fod unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Bydd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol yn adlewyrchu nifer y cwsmeriaid a'r defnydd o'r Swyddfa Bost, ac mae'n bosibl y byddwn yn sefydlu math gwahanol o wasanaeth. Gall hyn olygu cangen leol ei natur sy'n cael ei rhedeg ochr yn ochr â siop sy'n bodoli eisoes mewn adeilad wedi ei adnewyddu, er mwyn cynnig profiad siopa mwy modern a hwylus i gwsmeriaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylystod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.

Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.

Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.

Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.

Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

[postoffice.co.uk](http://postoffice.co.uk)

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

*Santosh Samudrala*

**Santosh Samudrala**

**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)

[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

## Canghennau eraill

Mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor rhai canghennau.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Gwasanaeth Allgymorth Swyddfa'r Post

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

#### Yr oriau agor

Dydd Llun	Dim gwasanaeth
Dydd Mawrth	10:30 – 13:30
Dydd Mercher	10:00 – 14:00
Dydd Iau	10:30 – 13:30
Dydd Gwener – Dydd Sul	Dim gwasanaeth

#### Gwasanaethau

Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd ag Yswiriant Teithio Ar Gais.

#### Mynediad

Mae gan adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ddrws awtomatig llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

### Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Allgymorth Swyddfa'r Post hwn tua 0.3 milltir o gangen Dociau Bute, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae parcio talu ac arddangos ar gael gerllaw. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng cangen Dociau Bute a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

#### Swyddfa Bost Holmesdale Street

53 Holmesdale Street

Caerdydd

CF11 7HH

#### Yr oriau agor

Dydd Llun – Dydd Sadwrn	08:00 – 20:00
Dydd Sul	09:00 – 17:00

#### Gwasanaethau

Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ynghyd ag Yswiriant Teithio Ar Gais a'r Loteri Genedlaethol.

#### Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws awtomatig llydan a mynedfa wastad. Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

### Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.9 milltir o gangen Dociau Bute, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw. Mae bysiau yn rhedeg yn aml rhwng cangen Dociau Bute a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 350 metr i ffwrdd.

#### Swyddfa Bost Heol Eglwys Fair

31 Heol Eglwys Fair

Caerdydd

CF10 1AB

#### Yr oriau agor

Dydd Llun – Dydd Sul	09:00 – 20:00
----------------------	---------------

#### Gwasanaethau

Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ar wahân i ddewis eang o Arian Teithio a Threth Cerbydau.

#### Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, mae dolen glyw a lle i gadair olwyn.

### Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.1 milltir o gangen Dociau Bute, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae yna amryw o feysydd parcio aml-lofftog gerllaw o amgylch y rhodfa siopa. Mae bysiau yn rhedeg yn aml rhwng cangen Dociau Bute a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 170 metr i ffwrdd.

## Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro<sup>1</sup>/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyr yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn).

[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.